

# Gwasanaethau Aelodau'r Cynulliad 2004-2005

(Trydydd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty o  
dan Reol Sefydlog 18.12, yn trafod blwyddyn  
1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005)

## **Rhagair gan y Llywydd**

Ers diwedd y flwyddyn y mae'r Adroddiad hwn yn cyfeirio ati, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyn ar 'Well Trefn Lywodraethu i Gymru' ac mae aros eiddgar am gyhoeddi'r Mesur i weithredu cynigion y Llywodraeth. I aros y newid hwn a fydd yn sefydlu fframwaith cyfansoddiadol newydd, mae gwahanu'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r Cynulliad fel deddfwrfa oddi wrth rai'r llywodraeth yn ddatblygedig iawn. Mae un cynnig yn arbennig yn debygol o effeithio'r Pwyllgor hwn gan y bydd y ddeddfwriaeth mae'n debyg yn sefydlu Comisiwn fel sydd yn San Steffan a Holyrood i gynnal ein materion mewnol. Bydd hyn yn ein troi'n gorff seneddol cyflawn.

Fel pe bai i aros am hyn, un elfen nodedig yn y flwyddyn oedd datblygiad gweithio ar y cyd gyda Senedd y Deyrnas Unedig i graffu ar ddeddfwriaeth fel yr oedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi cyfarfod â Phwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin i graffu ar y Mesur Trafnidiaeth (Cymru). Cyfarfu'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfwyio a'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal gyda'i gilydd yn Ionawr 2005 i gwestiynu'r Comisiynydd Plant ar ei Adroddiad Blynyddol. Fe all gweithio ar y cyd o'r fath ddod yn nodwedd o graffu cyn-deddfwriaethol ac o archwilio gwaith awdurdodau annibynnol yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, yn dilyn cyfeirio cyflogau a lwfansau'r Aelodau i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch annibynnol sefydlwyd strwythur cyflogau clir a chyson ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan roi iddynt fwy o sicrwydd a gwell llwybr gyrfa nag oedd wedi bod yn bosibl o'r blaen. Wrth wobrwyo ein staff cymorth yn iawn, yr ydym yn sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau yn well fel cynrychiolwyr pobl Cymru.

Cynlluniwyd adeilad newydd y Senedd fel adeilad amlwg, agored i'r bobl a'r cynrychiolwyr i gyfarfod. Edrychwn ymlaen at agor drysau'n cartref newydd i bobl Cymru a'r byd.

## **Rhagair gan y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd Pwyllgor y Ty)**

Roeddwn yn falch o weld Pwyllgor y Ty yn gwneud gwelliannau sylweddol yn ystod y flwyddyn yn y ffordd y mae'r Cynulliad yn ymwneud â Chymru a'r byd ehangach. Yn benodol, roeddem yn gallu cynllunio ar gyfer gwella Cofnod Trafodion y Cynulliad fel bo'r cyhoedd yn gallu darllen cofnod gair-am-air o'r Pwyllgorau Pwnc yn ogystal â gweld cofnod llawn o'r Cyfarfod Llawn cyn pen 24 awr.

O ran ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd, a'r wybodaeth sydd ar gael yng nghyswllt yr Undeb, mae gan Aelodau'r Cynulliad eu gwasanaeth penodol eu hunain yn awr yn Mrwsel, sy'n gallu rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgorau a'r Aelodau unigol a rhoi cymorth iddynt os oes angen iddynt fynd i Frwsel oherwydd busnes y Cynulliad. O ganlyniad i'r gwasanaeth hwn mae'n haws inni gadw golwg ar ddatblygiadau yn Ewrop, o ran eu heffaith ar Gymru a'n gwaith yn craffu ar bolisiau a deddfwriaeth.

Yn ystod y flwyddyn, gwelodd yr Aelodau nifer o welliannau yn y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, ac mae enghreifftiau o'r rhain i'w cael yn yr Adroddiad. Hoffwn dynnu sylw'n benodol at welliannau i'r cysylltedd â swyddfeydd etholaethol yr Aelodau, problem a oedd yn arafu gwaith yr Aelodau a'r staff. Cafodd hyn ei wella'n sylweddol yn ystod haf 2004, o ganlyniad i brosiect a oedd yn rhan o gytundeb TGCh Merlin ac a gafodd gymorth gan ein staff TG yn GSC.

Mae'n haws i'r Aelodau gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyfarfod Llawn o ganlyniad i Becynnau Dadl a gynhyrchir yn rheolaidd mewn perthynas â phynciau allweddol gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Mae'r rhain ar gael yn electronig a rhoddant gefndir a dadansoddiad defnyddiol, yn ogystal â chyswllt â gwybodaeth berthnasol.

Yn fuan yn ystod y flwyddyn, cytunodd Pwyllgor y Ty â Chod Canllawiau a awgrymais fel Cadeirydd ac a gymeradwywyd gan y Cyfarfod Llawn. Mae'r Cod yn cydnabod swyddogaeth Aelodau'r Pwyllgorau wrth iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb am benderfyniadau sy'n cynyddu fwyfwy o ran eu harwyddocâd ac wrth iddynt hybu'r broses o wahanu swyddogaethau'r Llywodraeth a'r Cynulliad.

Cafwyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Cymerodd Jane Hutt le Karen Sinclair o ganlyniad i newidiadau yn y Cabinet a chymerodd Owen John Thomas le Janet Davies. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau hynny sydd wedi gadael y Pwyllgor am eu cyfraniad i'n gwaith ac i groesawu'r ddau Aelod newydd.

Yn ystod 2005/6 byddwn yn gweld pwysau arbennig yn cael ei roi ar Aelodau a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad wrth inni gynllunio ar gyfer ymgymryd â'r gwaith o reoli'r adeilad newydd a symud tuag at ddeddfwriaeth sy'n gwahanu'r ddeddfwrfa a'r Llywodraeth. Bydd hon yn flwyddyn anodd, ond rydym wedi gosod sylfeini cryf a bydd Pwyllgor y Ty, gyda chymorth abl staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn barod i ymgymryd â'r her.

## **Cynnwys**

<a href="#"><u>Aelodau Pwyllgor y Ty a'r is-grwpiau 2004/05</u></a>	4
<a href="#"><u>Strwythur Staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad</u></a>	7
<a href="#"><u>Uchafbwyntiau'r Flwyddyn</u></a>	8
<ul style="list-style-type: none"><li>• <a href="#"><u>Y Comisiwn Richard</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Cymorth i Aelodau</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Cymru Ehangach</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Cysylltiadau Allanol a Rhyngwladol</u></a></li></ul>	
<a href="#"><u>Busnes y Cynulliad 2004–2005</u></a>	13
<ul style="list-style-type: none"><li>• <a href="#"><u>Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad</u></a></li><li>• <a href="#"><u>Uchafbwyntiau'r Pwyllgorau</u></a></li></ul>	
<a href="#"><u>Adnoddau Dynol</u></a>	27
<a href="#"><u>Cyllideb</u></a>	28
<a href="#"><u>Ystad y Cynulliad</u></a>	29
<a href="#"><u>Amcanion 2004–2005</u></a>	30
<a href="#"><u>Rhagolwg</u></a>	37
<a href="#"><u>Atodiad 1 Aelodau'r Pwyllgor, Presenoldeb ac Ystadegau</u></a>	38
<a href="#"><u>Atodiad 2 Cyflogau a Lwfansau Aelodau Cynulliad unigol</u></a>	46
<a href="#"><u>Atodiad 3 Cofnod o Ymweliadau Addysgol â'r Cynulliad</u></a>	53

## AELODAU PWYLLGOR Y TY 2004/2005

### Cadeirydd

Dr John Marek, AC  
Y Dirprwy Lywydd



### Aelodau

Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas  
Y Llywydd

Plaid Cymru



Lorraine Barrett

Llafur



Peter Black

Democratiaid  
Rhyddfrydol



Janet Davies  
(Ebrill 2004 – Medi 2004)

Plaid Cymru



William Graham

Ceidwadwyr



Janice Gregory

Llafur



Jane Hutt  
(o Ionawr 2005)

Llafur



Karen Sinclair  
(Ebrill 2004 – Ionawr 2005)

Llafur



Owen John Thomas  
(o fis Medi 2004)

Plaid Cymru



## **Clerc a Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty**

Clerc - Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad.  
Dirprwy Glerc – Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

## **Is-grwpiau a Grwp Cyswllt Pwyllgor y Ty**

Mae gan Bwyllgor y Ty yr is-grwpiau canlynol i'w helpu gyda'i waith. Mae pob un o'r tri grwp cyntaf a restrir isod yn cynnwys Aelod o bob plaid. Mae'r Grwp Cyswllt Offer a Chyfleusterau yn cynnwys un aelod o Staff Cymorth AC o bob plaid. Cyflwynir cofnodion yr is-grwpiau i Bwyllgor y Ty ac mae'r Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar unrhyw argymhellion a wneir.

### Yr Aelodau

#### Is-grwp y Celfyddydau

Mae'r is-grwp yn ystyried cynigion i gelf gael ei arddangos ar ystad y Cynulliad yn y Bae.

Rosemary Butler (Cadeirydd)	Llafur
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr
Owen John Thomas	Plaid Cymru

#### Yr Is-grwp Arlwyo

Mae'r is-grwp yn ystyried y trefniadau arlwyo ar gyfer yr Aelodau, y staff a'r cyhoedd yn ystad Bae Caerdydd.

David Melding (Cadeirydd)	Ceidwadwyr
Lorraine Barrett	Llafur
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru

#### Yr Is-grwp TG

Mae'r is-grwp hwn yn ystyried y cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd ar gael i'r Aelodau.

Alun Cairns (Cadeirydd)	Ceidwadwyr
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol
Elin Jones	Plaid Cymru
Carl Sargeant	Llafur

Y Grwp Cyswllt Offer a Chyfleusterau

Mae'r grwp hwn yn rhoi cyfle i Staff Cymorth yr Aelodau a'r Pleidiau Gwleidyddol godi materion ac ymgynghori ar y gwasanaethau a ddarperir.

Cynrychiolwyr y Grwpiau (Staff Cymorth yr Aelodau)


Mike Penn (Cadeirydd)  
Catherine Adams  
Claire Bradford  
Sarah Sharpe

Llafur  
Plaid Cymru  
Democratiaid Rhyddfrydol  
Ceidwadwyr



## Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad – Strwythur Staff

*Mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cefnogi ac yn dilyn arweiniad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd eu swyddogaethau ffurfiol, ac yn adrodd i Bwyllgor y Ty yn rhinwedd ei swyddogaethau o ran darparu cyfleusterau i'r Aelodau.*





## **Uchafbwyntiau'r Flwyddyn: Ebrill 2004 – Mawrth 2005**

### **Comisiwn Richard**

Cyflwynodd y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan gadeiryddiaeth Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Richard o Rydaman PC QC, adroddiad ym Mawrth 2004. Yr oedd yr Adroddiad yn cynnwys argymhellion, os mabwysiadwyd hwy a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor y Ty a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Cafodd y Pwyllgor bapurau yn ystod y flwyddyn oedd yn delio gyda'r argymhellion hyn, a bydd yn parhau i gymryd diddordeb yn y goblygiadau sy'n codi o'r Papur Gwyn dilynol "Trefn Lywodraethu Well i Gymru".

### **Cymorth i Aelodau**

**Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Ty** – ymgynghorodd Cadeirydd y Pwyllgor gyda'r Pwyllgor am gynhyrchu Cod Canllawiau ar gyfer ei Aelodau. Yn unol â Rheolau Sefydlog, cytunwyd ar y Cod gan y Cynulliad.

**Technoleg Gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu i Aelodau** – yn dilyn y pryderon a fynegwyd gan Aelodau, Pwyllgor y Ty a'i is-grwp ICT am gysylltiadau gwael, cyflwynwyd cylchoedd data band eang mewn 56 o'r 65 swyddfa etholaeth gofrestrdig dros haf 2004, ac mae swyddfeydd eraill wedi cael eu huwchraddio ers hynny. Achosodd hyn welliant mawr yn yr amser mynediad i'r holl ddefnyddwyr mewn swyddfeydd etholaethol ac mae mwy o welliannau yn cael eu cynllunio ar gyfer 2006. Mae cyfarpar IT aelodau hefyd wedi'u gwella fel rhan o contract gwasanaeth ICT Merlin.

**Adroddiad ac argymhellion SSRB:** fe wnaeth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion ei adolygiad tair blynedd o gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a chafodd ei argymhellion eu hystyried a'u derbyn gan Bwyllgor y Ty. Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Cynulliad, a benderfynodd o ganlyniad i wneud newidiadau i Bennu Cyflogau a Lwfansau Aelodau.

**Cymorth i drafodaethau** - yn Hydref 2004, cyflwynwyd pecynnau trafod i helpu Aelodau mewn trafodaethau Pwyllgorau Llawn allweddol. Mae'r pecynnau hyn yn dwyn ynghyd ddogfennau perthnasol a ffynonellau gwybodaeth. Cynhyrchwyd 20 pecyn yn y cyfnod hyd at Fawrth 2005.

**Cymorth Ewropeaidd** – yn Rhagfyr 2004, penodwyd Dadansoddwr Polisi'r Undeb Ewropeaidd i gryfhau'r gefnogaeth i Aelodau ar faterion Ewropeaidd. Mae'r swyddog newydd wedi'i leoli ym Mrwsel ac mae'n hybu agwedd strategol tuag at ystyried materion EU gan bwyllgorau. Mae cynnydd yn cael ei wneud yn barod trwy adnabod blaenoriaethau polisi allweddol a darparu gwybodaeth benodedig ar gyfer pob pwyllgor.

## **Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

**Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd:** ar 13 Mai 2004, cytunodd Pwyllgor y Ty o ran egwyddor y dylai'r Gwasanaeth Cyfieithu, a leolir o fewn Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, gael ei rannu yn ôl angen rhwng Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a'r Llywodraeth. Digwyddodd y rhaniad ar 1 Ebrill 2005. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfnod wedi parhau i ddangos fod y gwasanaethau i Aelodau wedi'u cyflwyno i safon gyson dda ac o fewn terfynau amser a benodwyd.

**Adrodd ar Drafodion y Cynulliad:** cytunwyd i gyflwyno cofnodion verbatim o Bwyllgorau'r Cynulliad a chyhoeddi cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y pwyllgor llawn o fewn 24 awr i ddiwedd y cyfarfod llawn dan sylw, gan Bwyllgor y Ty ar 8 Gorffennaf 2004. Yr oedd hyn yn cynnwys recriwtio a hyfforddi staff ychwanegol a datblygu systemau i sicrhau fod yr adnodd staff yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gyflwyno'r adroddiadau verbatim erbyn yr amser penodedig. Gweithredwyd y ddau brosiect yn llwyddiannus yn Ebrill 2005.

**Arolygu perfformiad** – mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau arolygu rheolaidd ar berfformiad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad trwy'r ystod o wasanaethau a ddarperir, yn ogystal â phapurau arolygu ariannol.

## **Cymru Ehangach**

**Adeilad Newydd:** cytunodd y Pwyllgor i helpu i dalu costau ffitiadau mewnol Adeilad newydd y Cynulliad ( y 'Senedd') hyd at £4m. Mae'r swm hwn yn cynnwys cyfraniad i'r cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylweddol (gwybodaeth ryngweithiol i'r cyhoedd, gwelliannau i'r system ddarlledu a thechnoleg o fewn y Siambr.), darparu dodrefn i'r cyhoedd a'r Aelodau a chelf a gysylltir gyda'r Senedd. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiadau cynnydd ac wedi gwneud penderfyniadau am weithrediad y Senedd yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi ymweld â'r Senedd yn ystod yr adeiladu. Cynhaliodd Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad brosiect "Fy Nghymru i", ble'r oedd ysgolion trwy Gymru wedi darparu gwaith celf i addurno'r waliau o gylch safle'r adeilad.

**Sylw gan y Cyfryngau:** yr oedd y sylw a gafwyd i'r Cynulliad gan y cyfryngau yn 2004-05 wedi codi o 24%, tra bo'r sylw cadarnhaol wedi codi o 64% a sylw negyddol wedi gostwng o 56%. Yr oedd hyn yn cynnwys proffil uwch i Bwyllgorau a sylw cynyddol i rôl wybodaeth gyhoeddus ac addysg y Cynulliad.

**Darlledu'r Cynulliad:** cytunodd Pwyllgor y Ty i sicrhau fod recordiadau clywedol a gweledol o drafodion y Cynulliad ar gael i gwmnïau teledu yn rhad ac am ddim er mwyn hybu'r defnydd o recordiadau'r Cynulliad gan

ddarlledwyr, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Cynulliad.

**Ymweliadau â'r Cynulliad:** mae 76,836 i gyd o ymwelwyr wedi'u croesawu i'r Cynulliad, ac mae rhaglenni wedi'u trefnu ar gyfer 638 ymweliad. Gwellodd Canolfan Ymwelwyr Bae Colwyn ar berfformiad y flwyddyn ddiwethaf a chroesawu 3,007 ymwelydd a alwodd i mewn a 412 o ymweliadau grwpiau. Yn ystod 2004-05 cafwyd 817 digwyddiad allanol yr aeth y gwasanaeth rhanbarthol iddynt a gwnaethpwyd cysylltiad gyda 18,574 o ymwelwyr.

**Bae Colwyn:** rhwng Rhagfyr 2004 a Ionawr 2005, cafodd llinellau ffôn Gwybodaeth a Neilltuo y Cynulliad eu hadleoli ym Mae Colwyn a darparu cyfleoedd newydd am swyddi yng Ngogledd Cymru yn ogystal â pharhau i sicrhau fod y cyhoedd yn gallu cyrraedd y Cynulliad. Cafodd y gwasanaeth ei wella, ar ddiwedd Mawrth 2005, gyda chyflwyno gwasanaeth trin galwadau ffôn newydd, sydd hefyd yn rhoi gwybodaeth allweddol i reolwyr am faint a natur galwadau.

**E-ddemocratiaeth:** yr oedd prosiect e-ddemocratiaeth, a weithredwyd yn rhan gyntaf 2005, yn ddatblygiad newydd a gynlluniwyd i annog ymwneud gan y cyhoedd gyda'r Cynulliad trwy drafodaeth gyhoeddus. Darparodd y cyfle i'r cyhoedd wneud sylw ar-lein (trwy "e-fforwm") a rhoddodd wybodaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn eu hadolygiad polisi o Anghenion Addysgol Arbennig. Yn Nhachwedd 2004, sefydlodd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau dudalen hafan ar y Rhynggrwyd, yn rhoi mynediad i'r cyhoedd i weld papurau ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau. O Ionawr 2005 gallai'r cyhoedd fynd at Fwletin Gwybodaeth Wythnosol y Cynulliad (a alwyd gynt yn Wasanaeth Ymwybyddiaeth Cyfredol y Cynulliad).

**Mynediad at Wybodaeth:** mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei ddull o gyflwyno'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn Ionawr 2005. Mae'r Pwyllgor yn defnyddio'r Adroddiad hwn i gyhoeddi gwybodaeth fanwl am wasanaethau a ddarperir i Aelodau, gan gynnwys eu cyflogau a'u lwfansau. Caiff gwybodaeth am geisiadau am wybodaeth ei nodi wrth y Pwyllgor yn rheolaidd.

**Deddfwriaeth Cymru Ar-lein:** yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, cytunodd y Pwyllgor i gwrdd â hanner cost y cymorth grant i Brifysgol Caerdydd am ddarparu gwasanaeth ar-lein hawdd ei gyrraedd yn rhoi manylion am ddeddfwriaethau'r Cynulliad.

**Cymorth Teithio:** yn dilyn llwyddiant y cynllun i roi cymorth gyda chostau teithio i ysgolion y tu allan i ddalgylch ardal y Cynulliad ym Mae Caerdydd, cytunodd y Pwyllgor i ehangu'r cynllun i gynorthwyo ysgolion gyda chost teithio i Ganolfan Gogledd Cymru.

**Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol:** cytunodd y Pwyllgor ei ran mewn dau gynllun gweithredu pwysig gan y Cynulliad yn ystod y flwyddyn.

## **Cysylltiadau Allanol a Rhyngwladol**

Mae'r Cynulliad yn cynnal rhaglen weithredol o gysylltiadau allanol a rhyngwladol, yn arbennig ar weithgaredd rhyng-seneddol o fewn Ewrop a'r Gymanwlad ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Ar lefel ranbarthol Ewropeaidd, yr oedd dirprwyaethau i'r Cynulliad yn cynnwys Cyngor Rhanbarthol Llydaw, Cyngor Rhanbarthol Tuscany a Senedd Brwsel.

Parhaodd y Llywydd a'r Darpar Lywydd i gymryd rhan yn y Gynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfu Rhanbarthol Ewropeaidd (CALRE), gan fynd i gynhadledd lawn flynyddol Cyngor Rhanbarthol Lombardi ym Milan yn Hydref 2004 a chyfarfodydd y Pwyllgor Llywio trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Cynulliad yn parhau i gefnogi cysylltiadau rhyngwladol a rhyngseneddol trwy ateb ceisiadau gan y Swyddfa Dramor a Swyddfa'r Gymanwlad (FCO) ac Undeb Rhyngseneddol Prydain i gynorthwyo i groesawu dirprwyaethau seneddol rhyngwladol sy'n ymweld â'r DU. Ymhlith yr ymwelwyr dros y flwyddyn yr oedd y Llefarydd Seneddol ar gyfer y Weriniaeth Siec, Cadeirydd Cynulliad Cenedlaethol Vietnam, Llefarydd y Senedd ym Macedonia a dirprwyaethau o seneddau cenedlaethol Ukrain a Mecsico.

Mae Llysgenhadon ac Uwch Gomisiynwyr sy'n ymweld â Chymru yn darparu llif gyson o ymwelwyr, unai yn dod gyda dirprwyaethau seneddol neu sy'n galw yn annibynnol fel rhan o ymweliad mwy. Ymhlith y Llysgenhadon a'r Uwch Gomisiynwyr a ymwelodd â'r Cynulliad yr oedd yr Ariannin, Armenia, Brasil, Chile, y Weriniaeth Siec, Hwngari, Gwlad yr Ia, Latvia, Lithwania, Lwcsembwrg, Mecsico, Nigeria, Slofenia a Thwrci.

Mae Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yn parhau fel y prif beirianwaith ar gyfer datblygu cysylltiadau rhyngseneddol y Cynulliad trwy'r Gymanwlad. Cynrychiolodd Aelodau y Cynulliad yng nghynhadledd flynyddol y CPA yn Nhoronto a Quebec ym mis Medi 2004, yn Tynwald ar Ynys Manaw ac ym Malaysia. Aeth Clerc y Cynulliad i seminar yn Nhy Cynrychiolwyr Zanzibar.

Ymhlith yr ymwelwyr o'r Gymanwlad â'r cynulliad yn ystod y flwyddyn oedd dirprwyaeth o Aelodau o Senedd Sri Lanka, oedd yn cyd-ddigwydd â Dathliad y Cynulliad o Ddiwrnod y Gymanwlad ym mis Mawrth 2005. Ymwelwyr nodedig eraill oedd Pwyllgor Safonau Seneddol De Cymru Newydd, Llefarydd seneddau Queensland a Tasmania a dirprwyaeth o Senedd Talaith Ekiti o Nigeria.

Mae'r Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig yn rhoi cyfle i ddirprwyaeth o'r Cynulliad i weithio gyda seneddwyr o brif seneddau ac is-seneddau Prydeinig a Gwyddelig. Gwnaethpwyd cynnydd i ddatblygu proffil y Cynulliad o fewn y Corff. Cas-gwent oedd y lleoliad ar gyfer y cyfarfod llawn yn Hydref 2004, y cyntaf o fewn y corff deddfwriaethol ers datganoli. Hefyd rhoddodd aelodau a swyddogion seneddol yr arweiniad cyntaf fel corff a ddatganolwyd

ar gynhyrchu adroddiad pwyllgor ar gyfer cyfarfod llawn y BIIPB ym Mawrth 2004 yn Bundoran, Donegal.

Cafwyd ymweliadau anffurfiol gan Aelodau o seneddau cenedlaethol Norwy a Sweden a seneddau rhanbarthol Bafaria, yr oeddent oll wedi ymweld â Chymru dros yr haf er mwyn mynychu rhaglenni iaith Saesneg.

Ym mis Gorffennaf 2004 rhoddodd yr Arglwydd Woolf, yr Arglwydd Brif Ustus anerchiad i Aelodau yn Siambr y Cynulliad.

Mae cydweithrediad gyda'r Cyngor Prydeinig yn parhau i ddarparu llif o ymwelwyr rhyngwladol sydd â diddordeb cadarn yn y Cynulliad. Mae cysylltiadau cryf yn bodoli gyda'u prosiectau llywodraethol a'u gweithgareddau addysg rhyngwladol, yn arbennig eu gweinyddiaeth o Ysgoloriaeth Chevening FCO a rhaglenni Cymrodoriaeth. Cynhaliodd y Llywydd dderbyniad ar gyfer myfyrwyr Ysgoloriaeth Chevening FCO o brifysgolion yng Nghymru. Trefnwyd rhaglenni ar gyfer myfyrwyr Cymrodoriaeth Chevening FCO sy'n astudio yn rhywle arall yn y DU yng Nghaerdydd a Bae Colwyn.

Cafodd cyfleoedd i'r Cynulliad i ddatblygu ei chysylltiadau o fewn Ewrop a chyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd yn arbennig eu cynyddu gyda phenodi swyddog seneddol wedi'i leoli ym Mrwsel yn Nhachwedd 2004.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi bod yn weithredol yn ceisio dysgu oddi wrth brofiadau uwch swyddogion seneddol. Ymhlith yr anerchiadau i staff seneddol yr oedd cyflwyniad gan Glerc Ty Cynrychiolwyr Awstralia, ac uwch glercod o Dy'r Cyffredin a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

## **Busnes y Cynulliad 2004-2005**

### **Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad**

Cynhaliwyd 66 o Gyfarfodydd Llawn yn ystod blwyddyn ariannol 2004-2005, gyda chymorth gweinyddol a chyngor gan staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar brynhawn Mawrth a Mercher, rhwng 2.00pm a 5.30pm.

### **Uchafbwyntiau'r Pwyllgorau**

Cynhaliwyd 155 o gyfarfodydd swyddogol o bwyllgorau pwnc a phwyllgorau safonol yn ystod 2004-05. Hefyd trefnodd y Gwasanaeth Pwyllgorau 30 cyfarfod anffurfiol a 27 ymweliad gan bwyllgorau pwnc a phwyllgorau safonol. Cafodd y Pwyllgorau dros 955 o bapurau, dros 400 ohonynt wedi'u cynhyrchu gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. Cafodd 98% o bapurau eu hanfon allan yn Saesneg erbyn y terfyn amser a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Yr oedd 68% o'r papurau oedd ar gael yn y Gymraeg wedi cyflawni'r un terfyniad amser. Cyflwynwyd dros 400 o bapurau briffio yn benodol i gefnogi cyfarfodydd ac ymweliadau pwyllgorau.

### **Y Pwyllgor Archwilio**

Cyfarfu'r Pwyllgor yn swyddogol ddeg gwaith yn ystod 2004-05. Yr oedd y rhain yn cynnwys tri chyfarfod i gymryd tystiolaeth ynglyn âg adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru 'Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru', y cynhaliwyd y diweddaraf ohonynt yn Abertawe ym Mawrth 2005.

Cyhoeddodd y Pwyllgor chwe adroddiad<sup>1</sup> ar bynciau trwy'r sector cyhoeddus, sydd wedi cynnwys 71 argymhelliad i wella gwariant cyhoeddus a chyflwyno gwasanaethau. Hefyd ystyriodd wyth ymateb ar wahân i'r adroddiadau gan Lywodraeth y Cynulliad, oedd yn cynnwys cyfanswm o 82 argymhelliad, yr oedd 80 ohonynt wedi'u derbyn yn ffurfiol ac yr oedd y gweddill wedi'u derbyn yn rhannol.

Daeth pedwar prif thema i'r amlwg yng ngwaith craffu'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn: gwella ansawdd bywyd; annog defnydd mwy doeth o adnoddau sy'n bodoli; cefnogi gwell prynu; a rheolaeth ariannol da.

Daeth tymor penodiad Syr John Bourn fel Archwilydd Cyffredinol Cymru i ben ar 31 Mawrth 2005. Mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn benodiad statudol a wneir gan Ei Mawrhydi y Frenhines o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Yng Ngorffennaf 2004, dechreuodd y gwaith o ddatblygu protocol i'r penodiad gael ei wneud i Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru am gyfnod penodedig o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2005. Cafodd y

---

<sup>1</sup> 'Rheoli Absenoldeb Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'; 'Rheoli Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol Cymru 2004'; 'Cyllid y GIG yng Nghymru 2004'; 'Adroddiad Cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru 2004'; 'Ariannu Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Adroddiad ar Hynt sicrhau'r Manteision i Gymru'; 'Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoliad ar reoli gwastraff'.

protocol ei gytuno gan y Prif Weinidog a'r Llywydd. Yn unol â'r protocol, eisteddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a thri o'i Aelodau ar banel dewis, a phenodi Jeremy Colman.

Yn ystod y flwyddyn cymerodd y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn creu Swyddfa Archwilio Cymru, a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 2005.

Ym mis Medi 2004, fe ystyriodd y Pwyllgor raglen ddrafft Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2005-06 a chytuno ar gyllideb a fydd yn cynnwys y gwaith cyllidol a'r gwaith gwerth am arian yn 2005-06.

### Y Pwyllgor Busnes

Y Pwyllgor Busnes sy'n rhoi cyngor ar reoli busnes y Cynulliad ac arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad. Cyfarfu'r Pwyllgor yn wythnosol bob dydd Mawrth yn ystod sesiynau'r Cynulliad. Cadeirydd y Pwyllgor oedd Jenny Randerson AC, a mynychwyd y Pwyllgor gan Weinidog Busnes y Cynulliad a Rheolwyr Busnes y tair plaid arall a'r Dirprwy Lywydd. Yn ystod 2004-05, fe ystyriodd y Pwyllgor 1,304 o bapurau i gyd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat a chaiff y cofnodion eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

### Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cynhaliodd y Pwyllgor, Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon dri ar ddeg o gyfarfodydd swyddogol yn ystod 2004-05, yn cynnwys un cyfarfod allanol oedd yng Nghanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon yng Nghasnewydd. Hefyd fe gyfarfu rapporteurs y Pwyllgor yn breifat, am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda phob un o'r pum Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ystyried cynlluniau corfforaethol a materion cyfredol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yng Ngogledd Cymru a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor llawn. Hefyd sefydlwyd grwp cyfeirio ar gyfer sefydliadau dawns i gynnig cyngor ar yr adolygiad ar 'Dawns yng Nghymru'. Cyfarfu un waith, yn breifat yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio llawer o'i waith ar adolygu polisïau. Cafodd ei adroddiad ar yr adolygiad 'Cyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon yng nghyswllt Adfywio Cymunedau'<sup>2</sup> ei wneud yn derfynol a gwnaeth y Gweinidog ei adroddiad cyntaf ar 'Ysgrifennu trwy Gyfrwng y Saesneg yng Nghymru'. Mae'r Pwyllgor yn ystyried tystiolaeth ar hyn o bryd ar adolygiad newydd ar 'Dawns yng Nghymru'<sup>3</sup>. Dechreuodd yr ymgynghoriad ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2004 ac yn ystod Ionawr – Mawrth 2005 cynhaliodd y Pwyllgor dri sesiwn tystiolaeth lafar.

---

<sup>2</sup> Cylch gorchwyl: *Adolygu ac ystyried:*

- *Y cysylltiadau rhwng y polisi celf, y polisi chwaraeon a'r polisi adfywio cymunedol;*
- *Sut y gall prosiectau celf a chwaraeon lleol gyfrannu tuag at adfywio cymunedau;*
- *y mecanweithiau cymorth sydd ar gael i brosiectau celf a chwaraeon cysylltiedig ag adfywio; ac*
- *arferion gorau o ran prosiectau celf a chwaraeon cysylltiedig ag adfywio yn y gymuned*

<sup>3</sup> Cylch gorchwyl: *Adolygu ac ystyried;*

- *lefelau cymryd rhan a chyfleoedd i gymryd rhan mewn dawnsio (gan gynnwys dawns mewn addysg);*
- *lefelau'r gefnogaeth i ddawns*
- *gradd y cyfeiriad strategol; ac*
- *argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol gan y Llywodraeth a chyrrff perthnasol eraill*

Hefyd cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar dri achlysur ar faterion darlledu, gan gynnwys adolygiad Ofcom ar Ddarlledu yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym Mawrth 2005 cynhaliodd gyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin ar drydydd cam adolygiad Ofcom, gan ystyried y cynigion ar gyfer y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar ddyfodol y Theatr yn yr Iaith Saesneg yng Nghymru, oddi wrth yr Urdd a Sgrin yn ystod y flwyddyn.

### Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cynhaliodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth 19 o gyfarfodydd swyddogol a mynd ar un ymweliad tramor yn ystod 2004-05. Yr oedd dau o'r cyfarfodydd swyddogol yn gyfarfodydd ar y cyd â Phwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin.

Yn ystod y flwyddyn, treuliodd y Pwyllgor gryn amser yn derbyn mwy o dystiolaeth lafar ar gyfer ei adolygiad polisi o 'Anweithgarwch Economaidd'<sup>4</sup>. Yn ogystal â chymryd tystiolaeth ffurfiol, ymwelodd y Pwyllgor â Helsinki i edrych ar y cysylltiadau rhwng anweithgarwch a gofal plant a thrafnidiaeth. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Anweithgarwch Economaidd yn Ebrill 2005.

Un o'r prif faterion i'r Pwyllgor edrych arno yn ystod y flwyddyn oedd y ddeddfwriaeth a ddeilliodd o Adolygiad Rheilffyrdd Llywodraeth y DU. Arweiniodd hyn i'r Pwyllgor weithio gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig ar graffu'r Mesur Trafnidiaeth (Cymru) ym Mehefin 2004. Yr oedd hon yn fenter arloesol gan mai dyma'r tro cyntaf i Bwyllgor Ty'r Cyffredin weithio yn swyddogol gyda Phwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn dilyn y craffu ar y cyd, cyhoeddodd y ddau Bwyllgor adroddiad a wnaeth argymhellion tebyg i Lywodraethau'r DU a Llywodraeth y Cynulliad.

Gweithredodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fwyafrif y prif argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a chafodd y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) ei newid yn unol â hynny. Hefyd fe graffodd y Pwyllgor ar y Mesur Rheilffyrdd ac ysgrifennodd at Bwyllgor Mesurau Ty'r Cyffredin a phob Aelod Seneddol yng Nghymru yn mynegi amheuaeth am rai o'r cymalau yn y Mesur.

Parhaodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar gyflwyno Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru a'r trefniadau ar gyfer y swydd Cronfeydd Strwythurol yn 2006. Blaenoriaeth allweddol arall eleni a ddaeth yn sgil y datganiad yn Gorffennaf 2004 oedd fod Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i gael eu huno o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi craffu'r

---

<sup>4</sup> Cylch gorchwyl: *Adolygu'r:*

- *lefelau uchel o anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r ffactorau sydd y tu cefn i hynny;*
  - *y polisiâu i gynyddu lefelau gweithgarwch economaidd sy'n cael eu dilyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill;*
- a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn.*



Gweinidog ar gynlluniau ar gyfer yr uno yn ogystal â'r ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio arno.

### Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cynhaliodd y Pwyllgor un ar bymtheg o gyfarfodydd swyddogol yn ystod 2004-05. Hefyd cwblhaodd y Pwyllgor ddau adolygiad polisi yn ystod y cyfnod: 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA), Rhan 1 Adnabod ac ymyrryd yn gynnar<sup>5</sup> a Thrafnidiaeth Ysgolion<sup>6</sup>. Cafodd y Pwyllgor gymorth gan grwp cyfeirio allanol ar gyfer y cyntaf a phenododd gynghorydd arbenigol i gynorthwyo gyda'r ail. Cyhoeddwyd yr Adroddiad AAA (Rhan 1) ym mis Tachwedd 2004. Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad gyda Datganiad Cabinet yn Ionawr 2005 a derbyniodd y mwyafrif o'r argymhellion.

Parhaodd y Pwyllgor i graffu ar sefydliadau addysg a hyfforddi perthnasol yng Nghymru: y Cyngor Cenedlaethol ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ELWa); y Cyngor Ariannu Addysg Uwch yng Nghymru (HEFCW); y Cyngor Dysgu Cyffredinol yng Nghymru (GTCW); yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); yr Awdurdod Cwricwlwm a Chymwysterau yng Nghymru (ACCAC); a Gyrfaoedd Cymru.

---

<sup>5</sup> Cylch gorchwyl:

- *Adolygu pa gymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i helpu rhieni ac athrawon i adnabod anghenion addysgol arbennig yn gynnar;*
- *Adolygu sut y mae awdurdodau lleol yn ystyried y gofyniad i adnabod yn gynnar fel y nodir yn Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;*
- *Adnabod arfer da mewn gwaith aml asiantaeth wrth adnabod anghenion addysgol arbennig yn gynnar a'r ddarpariaeth o strategaethau ymyrryd priodol, gan gynnwys cyflenwi a hyfforddi therapyddion lleferydd ac iaith;*
- *Ystyried yr argymhellion a nodir yn yr Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig a gynhaliwyd gan Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad a'r ymateb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2003;*
- *Maintio'r cyngor a'r cymorth a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig, mewn cysylltiad ag adnabod ag ymyrryd yn gynnar; a*
- *Gwneud argymhellion i Weinidog y Cynulliad ar sut y gellid gwella gwasanaethau cyfredol, er mwyn i fwy o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig gael eu hadnabod mewn da bryd er mwyn galluogi strategaethau ymyrryd effeithiol i gael eu datblygu a'u gweithredu.*

<sup>6</sup> Cylch gorchwyl: Bydd y Pwyllgor yn:

- *Archwilio'r trefniadau a wneir gan awdurdodau lleol ar gyfer cludo disgyblion ar fws i ac o'r ysgol: i archwilio'r math o fysiau a ddefnyddir, a'r camau a gymerir i sicrhau diogelwch a diogelwch personol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r math o gontractau a roddir i gwmnïau bysiau a'u hyd, a threfniadau archwilio cysylltiedig â hynny;*
- *Cymryd golwg hollistaidd ar gludiant i'r ysgol gyda bysiau ac ystyried dulliau o wella effeithiolrwydd a gwerth am arian. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y daith yn gyfan o'r cartref i'r ysgol a'r cyfrifoldebau cysylltiedig â hi*
- *Ystyried sut i wella'r trefniadau cludiant i blant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol a neu corfforol arbennig;*
- *Ystyried darpariaethau'r Mesur Cludiant Ysgolion Drafft, ac yn ystyried pa gyfarwyddyd ddyldid ei gyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad i gynorthwyo awdurdodau addysg lleol i baratoi cynigion ar gyfer prosiectau peilot arloesol;*
- *Cyflwyno adroddiad i Weinidog y Cynulliad ac Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc.*

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyfarfodydd rapporteur gyda'r sefydliadau addysg a hyfforddi a gyfeirir atynt yn y paragraff uchod. Yr oedd y rhain yn ddefnyddiol iawn i gael gwybodaeth drylwyr o faterion addysg a hyfforddiant a hefyd i ddatblygu perthnasoedd adeiladol gyda'r sefydliadau perthnasol.

Yn Ionawr 2005, craffodd y Pwyllgor ar y Mesur Addysg, a oedd wedi'i gyfeirio i'r Pwyllgor gan y Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd yr oedd y Pwyllgor wedi craffu naw eitem o'r is-ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd yn Ionawr 2005, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal i holi'r Comisiynydd Plant am ei adroddiad blynyddol.

Hefyd fe holodd y Pwyllgor Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (Susan Lewis) ar ei hadroddiad blynyddol.

### Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cynhaliodd y Pwyllgor un ar ddeg cyfarfod swyddogol yn ystod 2004-05. Hefyd fe gynhaliodd ddau ymweliad rapporteur â Chyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (ym Mehefin 2004 ag Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ac yng Ngorffennaf 2004 â'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru). Hefyd fe wnaeth sawl ymweliad mewn cysylltiad gyda'i adolygiadau polisi.

Cwblhaodd y Pwyllgor ei adolygiad i'r Twbercwlosis Buchol a thrafododd ymateb y Llywodraeth i'w adolygiad cyntaf o dai fforddiadwy. Yn Hydref 2004, cytunodd y Pwyllgor ar y cylchoedd gorchwyl ar gyfer ei drydydd adolygiad i "Gyrredd Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu"<sup>7</sup>, ac yn ystod yr adolygiad cymerodd dystiolaeth gan y Gweinidog a chan ystod o gyrff cyhoeddus a'r gymuned a'r sectorau gwirfoddol.

Cyfeiriwyd dau Fesur i'r Pwyllgor gan y Cyfarfod Llawn yn dilyn Araith y Frenhines: y Cymdogaethau Glan a Mesur yr Amgylchedd a'r Mesur Drafft Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr ystyriwyd y ddau ohonynt gan y Pwyllgor yn Chwefror 2005. Hefyd craffodd y Pwyllgor ar ddeuddeg darn o is-ddeddfwriaethau, gan gynnwys rheoliadau yn gysylltiedig â phasbortiau i geffylau, a wrthododd. Cafodd y rheoliadau eu pasio'n ddiweddarach yn y Cyfarfod Llawn.

Yn Rhagfyr 2004, cytunodd y Panel Cadeiryddion y byddai Rhaglen Ddeddfwriaethol a Gwaith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd yn fan cychwyn ar gyfer monitro pellach a chraffu deddfwriaethau Ewropeaidd. Ym mis Mawrth 2005, dynododd y Pwyllgor chwe mater sydd i'w hystyried ymhellach: strategaethau thematig ar yr amgylchedd trefol; gwastraff a'r amgylchedd

---

<sup>7</sup> Cylch gorchwyl:

- *Ystyried cynnydd a wnaethpwyd i gwrdd â thargedau ailgylchu a chompostio a amlinellwyd yn 'Yn Gall gyda Gwastraff' trwy ystyried offerynnau polisi a ddefnyddir i weithredu gan gynnwys y system gynllunio, ffynonellau a'r defnydd o arian, a rôl y deiliaid diddordeb; i ystyried yr angen am unrhyw gamau ychwanegol i sicrhau fod Cymru yn ateb ei goblygiadau statudol dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi; a gwneud argymhellion.*

forol; a dogfen bolisi ar fioamrywiaeth, Rheoliad Datblygiad Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd a'r Rheoliad REACH arfaethedig.

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ddiwygiad y Polisi Amaeth Cyffredin a'i oblygiadau ar gyfer Cymru yn ei gyfarfod ym Mehefin, a pharhaodd i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd trwy'r flwyddyn trwy adroddiadau'r Gweinidog.'

Croesawodd y Pwyllgor ymweliad gan Bwyllgor Amaeth Senedd Tuscanny ym mis Mehefin 2004, ac ymhlith materion eraill, fe drafododd organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig. Ym mis Gorffennaf 2004, cynhaliodd y Pwyllgor dderbyniad ar y cyd gyda'r Llywydd yn Sioe Frenhinol Cymru. Ym mis Tachwedd 2004, croesawodd y Pwyllgor ymweliad gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Datblygiad Gwledig Senedd yr Alban.

Cyfarfu pum **Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**, gyda phob un ohonynt yn cynnwys pedwar aelod o'r Pwyllgor EPC yn ystod y flwyddyn i ystyried wyth achos.

### Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Cynhaliodd y Pwyllgor un ar ddeg cyfarfod swyddogol yn ystod 2004-05, gan gynnwys cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ystyried adroddiad y Comisiynydd Plant. Hefyd cyhoeddodd argymhellion ei adolygiad 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol'<sup>8</sup> ym mis Gorffennaf 2004 ac ystyriodd ymatebion gan y Cynulliad Cenedlaethol, yr Ysgrifennydd Parhaol a Phwyllgor y Ty ym mis Mawrth 2005. Bydd gweithredu yn cael ei fonitro yn ystod 2005-06.

Dechreuodd adolygiad newydd ar 'Ddarpariaeth Gwasanaeth i Bobl Ifanc Anabl'<sup>9</sup> gyda chasglu tystiolaeth ar thema 'addysg, hyfforddiant a chyflogaeth' yn hydref 2004. Mae grwp cyfeirio o bobl ifanc anabl, wedi'i hwyluso gyda chymorth gan Barnardo's Cymru yn cynghori'r pwyllgor yn unol â dywediad yr adolygiad 'Dim Byd Amdanom ni, Hebom ni'.

---

<sup>8</sup>.Cylch gorchwyl: *Swyddogaeth sylfaenol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yw archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth wneud ei swyddogaethau a chynnal ei waith, yr egwyddor y dylai fod cyfleoedd cyfartal i bawb. Fe wnaeth y Pwyllgor blaenorol awgrymiadau am sut y gallai pwyllgorau pwnc a gweinidogion hybu ac ystyried materion cydraddoldeb yn fwy effeithiol, ond yr oedd y rhain yn aml ar sail ad hoc. Byddai cychwyn yr Ail Gynulliad yn gyfle da i'r Pwyllgor wneud argymhellion cyffredinol ar sut y dylai materion cydraddoldeb gael eu prif ffrydio yng ngwaith y Cynulliad. Byddai'r Cynulliad yn gallu defnyddio adolygiad tebyg a wnaethpwyd yn yr Alban yn 2002/03.*

<sup>9</sup>.Cylch gorchwyl: *Adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru. Gan gynnwys archwilio'r materion sy'n codi yn y Gyngres Ryngwladol gyntaf i Bobl Ifanc Anabl. Dylid canolbwyntio ar dair prif thema:*

1. *Hybu a rhoi cymorth i annibyniaeth ac ymreolaeth pobl ifanc*
  2. *Ymateb, a bod â'r cwsmer yn ganolog ynghyd â darpariaeth gwasanaethau ar y cyd*
  3. *Darparu gwasanaethau a chefnogaeth sy'n briodol i'r oedran dan sylw.*
- Gan roi sylw arbennig i: addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, hamdden, tai, trafndiaeth, cyfarpar, trosglwyddo i fod yn oedolion, mynediad at wybodaeth, a thlodi.*

Craffodd y Pwyllgor ar bedwar Aelod o'r Cynulliad ar faterion cydraddoldeb o fewn eu portffolios, gan gynnwys ceisio lloches, tldi ymhlith plant, darparu gwasanaeth ar gyfer sipsiwn a chrwydriaid , a datblygiad cynaliadwy. Hefyd fe ystyriodd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad cyn ei gyhoeddi.

Yn dilyn newid i'r Rheolau Sefydlog yn Chwefror 2005 yn gadael i Fesurau yn araith y Frenhines gael eu cyfeirio, ystyriodd y Pwyllgor y 'Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd'. Hefyd fe gadwodd olwg fanwl ar ddatblygiad un Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y DU.<sup>10</sup>

### Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wyth cyfarfod swyddogol yn ystod 2004-05. Hefyd parhaodd i ddatblygu systemau i arolygu ac adnabod deddfwriaethau Ewropeaidd perthnasol i Gymru ac mae wedi symud y pwyslais ymlaen o ddogfennau a adawyd gyda Senedd y DU i ganolbwyntio ar raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd. Gobeithir y bydd y driniaeth hon yn galluogi adnabod eitemau a materion allweddol yn gynt.

Croesawyd y dull newydd ac fe'i mabwysiadwyd gan bwyllgorau pwnc ac fe'i gweithredwyd ar ddiwedd y flwyddyn gynllunio (2004-05). Bydd y Pwyllgor yn parhau i arolygu ac arfarnu'r agwedd hon. Tuag at ddiwedd y flwyddyn dechreuodd y Pwyllgor ar graffu cyfyngedig Cyfarwyddyd Gwasanaethau yr Undeb Ewropeaidd. Casgliad yr ystyriaeth oedd fod y Pwyllgor wedi paratoi adroddiad a gyflwynodd yn swyddogol i'r Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Aelodau Senedd Ewropeaidd yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gadw ei olygon ar y Cronfeydd Strwythurol gyda thrafodaethau ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a hefyd gyda'r Trysorlys a'r Adran Lafur a Diwydiant. Mae hefyd wedi cadw ei olygon ar ddatblygiadau ehangach yr Undeb Ewropeaidd gyda thrafodaethau yn cynnwys adrannau'r Weinyddiaeth yn Lloegr ar yr Ewro ac Agenda Lisbon.

Croesawodd y Pwyllgor Lysgennad Lwcsembwrg i drafod eu cynlluniau ar gyfer llywyddiaeth arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd. Hefyd cynhaliodd drafodaeth ar gysylltiadau gyda Latvia a chroesawodd Is-gennad Anrhydeddus Latvia i'w gyfarfod.

---

<sup>10</sup> Cylch gorchwyl:

- i. *Adolygu'r mecanweithiau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac ansawdd y dystiolaeth;*
- ii. *Archwilio'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd;*
- iii. *Arfarnu effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y gall penderfyniadau mewn un gwasanaeth ei gael ar un arall;*
- iv. *Archwilio'r prif feysydd sy'n effeithio ar ansawdd a darpariaeth gwasanaeth di-dor, yn arbennig: rhyddhau o ysbyty, gofal canolradd, gwasanaethau cartrefi nyrsio a chartrefi gofal, gwasanaethau gofal cartref, cysylltiad y sectorau preifat ac annibynnol, cymorth i ofalwyr.*
- v. *Adolygu rôl y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn hybu annibyniaeth cleifion ac yn atal cleifion rhag gorfod cael eu derbyn neu eu hail-dderbyn i ysbyty.*

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal ei gysylltiadau gyda'r pwyllgorau craffu yn San Steffan a chroesawodd y cyfarfod rheolaidd gyda'i bwyllgorau cyfatebol yn Nhy'r Cyffredin, Ty'r Arglwyddi a Senedd yr Alban.

### Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfarfu'r Pwyllgor 13 gwaith yn ystod 2004/-5, gan gynnwys un cyfarfod allanol yn Wrecsam.

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar yr adolygiad rhyngwynebu rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>10</sup> yn ei gyfarfod allanol. Hefyd ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â thri phrosiect fel rhan o'r adolygiad, a gwblhawyd ym Mawrth 2005. Digwyddodd lansiad ffurfiol yr adroddiad yng Nghanolfan y 'Forge', Port Talbot. Cafwyd trafodaeth ar yr adroddiad yn y cyfarfod llawn ar 9 Mawrth, cyn cyflwyno ymateb ffurfiol y Gweinidog i'r Pwyllgor.

Hefyd dechreuodd y Pwyllgor ar adolygiad polisi byr o Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl – Grym i'r Defnyddiwr a'r Gofalwr<sup>11</sup>. Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol dros yr haf, gyda deg o unigolion/ sefydliadau yn rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn yr hydref. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a bydd yn adrodd wrth y Cynulliad yn hydref 2005.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i un ar ddeg darn is-ddeddfwriaeth, yn unol â'r protocol a gytunwyd ganddynt. Cyfeiriwyd dau Fesur i'r Pwyllgor gan y Cyfarfod Llawn yn dilyn Araith y Frenhines. Cafodd y ddau fesur hyn, y Mesur Plant a'r Mesur Asiantaeth Diogelu Iechyd, eu hystyried gan y Pwyllgor ym mis Mai 2004. Hefyd ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Iechyd Meddwl drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Medi ar gyfer craffu arno cyn ei basio'n ddeddf. Gwahoddodd y pwyllgor y sefydliadau hynny yng Nghymru a roddodd dystiolaeth ar y Mesur drafft blaenorol ym mis Medi 2002 i wneud hynny eto. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd y Cyd Bwyllgor ar y Mesur Iechyd meddwl Drafft, y Gweinidog yn y Cynulliad dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd Pwyllgor Iechyd Ty'r Cyffredin yn amlinellu argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor. Hefyd rhoddodd y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor dystiolaeth i Bwyllgor Ty'r Cyffredin.

Yn Ionawr 2005, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Pwyllgor Cydraddoldeb Cyfleoedd i gwestiynu y Comisiynydd Plant am ei adroddiad blynyddol.

---

<sup>11</sup> Cylch gorchwyl:

*Adolygu Camau Allweddol 4 a 7 o fewn Safon 2 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl (NSF), fel y maent yn berthnasol i oedolion o oedran gweithio sy'n cael eu cynnwys yn yr NSF, a hefyd yr egwyddorion sy'n berthnasol i bobl oedrannus, plant a phobl ifanc. Yn arbennig i:*

*Adolygu'r gofynion a'r canllawiau presennol ar gyfer cynnwys defnyddwyr a gofalwyr yn natblygiad cynlluniau gofal unigol; ac*

*Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cynnwys defnyddwyr a gofalwyr mewn cynllunio, comisiynu, cyflwyno, monitro ac arfarnu gwasanaethau iechyd meddwl.*

## Y Pwyllgor Deddfau

Cyfarfu'r Pwyllgor 26 o weithiau ac ystyriwyd 175 darn o ddeddfwriaeth yn ystod 2004-05, a chyhoeddwyd adroddiad ar bob Offeryn Statudol.

Yn ystod mis Gorffennaf 2004, cyfarfu'r Pwyllgor gyda dirprwyaeth o Bwyllgor Is ddeddfwriaethau Senedd yr Alban. Yr oedd y trafodaethau yn cynnwys y gwahaniaethau gweithredol cymharol a'r ymdriniaeth o'r Ymchwiliad i'r fframwaith rheolaethol yn yr Alban.

Ym mis Medi 2004, argymhellodd y Pwyllgor fod y troednodau llythrennau yn cael eu newid yn droednodau rhifau o fewn is-ddeddfwriaethau cyffredinol y Cynulliad, a gweithredwyd eu hargymhelliad o 1 Ionawr 2005.

Yn Hydref 2004, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog perthnasol yn mynegi pryder am anfanteision defnyddio'r Weithdrefn weithredol: mae unrhyw gangymeriadau yn amhosibl i'w cywiro hyd nes bod deddfwriaeth ddiwygio.

Yn Chwefror 2005, mynegodd y Pwyllgor ei fod yn ffafrio, yn yr Offerynnau Statudol fod y dywediad "mewn perthynas â Chymru" heb y gair "yn unig" yn cael ei ddefnyddio, ac y dylid defnyddio'r rhifau heb unrhyw rifau trefnol yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Ym mis Mawrth 2005, cafodd y Pwyllgor drafodaeth gyda Chwmsel Deddfwriaethol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Prif Gyfieithydd Cyfreithiol gyda golwg ar yr angen i ddefnyddio iaith niwtral o ran cenedl wrth ddrafftio deddfwriaethau a rhai agweddau penodol eraill drafftio Offerynnau statudol.

## Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cynhaliodd y Pwyllgor 13 cyfarfod swyddogol yn ystod 2004-05, gan gynnwys dau gyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad 'Gweithrediad Strwythurau Rheoli Politicaidd Newydd mewn Llywodraeth Leol'<sup>12</sup>. ym mis Mai 2004. Cafodd yr adroddiad dderbyniad da ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r WLGA wedi ymrwymo i weithredu'r mwyafrif o'r argymhellion. Yn Ebrill 2004, dechreuodd y Pwyllgor ar ei ail adolygiad polisi i weithredu y drefn rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru<sup>13</sup>. Mae'r adroddiad i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2005 a bydd yn cynnwys 21 argymhelliad ar gyfer symleiddio a rhesymoli'r

---

<sup>12</sup> Cylch gorchwyl:

*Ystyried gweithrediad y strwythurau rheoli politicaidd newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, eu llwyddiant yn gweithredu dulliau gwneud penderfyniadau mwy tryloyw, effeithiol ac atebol ac yn gwneud argymhellion i annog datblygiad arferion da.*

<sup>13</sup> Cylch gorchwyl:

*Ystyried gweithrediad y drefn rheoleiddio ac arolygu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys roliau ac atebolrwydd arolygiaethau, eu cyd-gysylltu gyda chyrrff a arolygwyd a'r gwerth ychwanegol a gyfrannodd y drefn i wella gwasanaethau cyhoeddus.*

drefn. Ym Mawrth 2005, cytunodd y Pwyllgor y cylchoedd gorchwyl a'r cynllun prosiect ar gyfer craffu ar y trefniadau etholaethol yng Nghymru.

Yn Ionawr 2005, trafododd y Pwyllgor y Mesur Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig mewn cyfarfodydd yng Nghaerdydd a San Steffan. Anfonwyd adroddiad am ganfyddiadau ac argymhellion i bob Aelod Seneddol Cymreig ac Arglwydd yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar un ar ddeg darn o is-ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn Chwefror 2005, cynhaliodd sesiwn ar Reoliadau (Cynllunio ar gyfer Argyfyngau Posibl) 2005 y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gan dderbyn tystiolaeth gan dystion a chynhyrchu adroddiad a anfonwyd i Swyddfa'r Cabinet.

Ym mis Gorffennaf 2004, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ar Bapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat a'r Gyfraith Gymuned ar Gontractau Cyhoeddus a Chonresiynau. Anfonwyd llythyr i'r Comisiwn Ewropeaidd yn amlinellu barn y Pwyllgor.

Yn Nhachwedd 2004, ymwelodd y Pwyllgor â'r Senedd yn yr Alban i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol Albanaidd a chael tystiolaeth gan Weithrediaeth yr Alban a Chymdeithas Llywodraeth Leol yr Alban (CoSLA). Hefyd ym mis Tachwedd 2004, cynhaliodd y Pwyllgor ddau sesiwn rapporteur, un yng Nghaerfyrddin a'r llall yn Llanelwy.

Yn Ionawr 2005, cynhaliodd y Pwyllgor ginio i gynrychiolaeth o Aelodau Seneddol o Fecsico oedd yn ymweld â Phrydain i astudio'r berthynas rhwng llywodraethau canolog a llywodraethau lleol.

### Y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ym Mehefin 2004 fel pwyllgor ychwanegol dan Reol Sefydlog 8.1, i roi cyngor ar wahardd ysmygu mewn manau cyhoeddus. Cyfrifoldeb y Pwyllgor ydoedd archwilio holl agweddau'r mater gan gynnwys:

- Y peryglon iechyd mwg tybaco yn yr amgylchedd;
- Effaith economaidd cyfyngiadau ar ysmygu mewn manau cyhoeddus;
- Effaith gwaharddiad i ostwng faint o bobl sy'n ysmygu;
- Effeithiolrwydd ffaniau alldynnu a chyfarpar awyru arall i gael gwared â mwg tybaco o'r awyr;
- Dadleuon hawliau dynol gyda golwg ar ysmygwyr a rhai nad ydynt yn ysmygu;
- Materion gorfodi.

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus eang dros yr haf a derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan ystod eang o bobl oedd â diddordeb. Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn 2004-05, ac aeth ar ymweliad darganfod ffeithiau ag Iwerddon. Cwblhaodd y Pwyllgor ei waith yn Ebrill 2005 ac yna fe adroddodd wrth y Cynulliad am yr hyn a ganfu.

## Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cynhaliodd y Pwyllgor 15 cyfarfod swyddogol yn 2004/05, gan gynnwys un cyfarfod allanol ym Mhontypridd. Trefnwyd cyfarfod swyddogol allanol pellach ym Mae Colwyn, a ddaeth yn gyfarfod anffurfiol gan na chafwyd cworwm. Fe wnaeth y Pwyllgor ddau ymweliad yn ystod y flwyddyn, â phentref Poundbury yn Dorset a Charchar Lerpwl (Walton).

Cyhoeddodd y Pwyllgor argymhellion yr adolygiad polisi o 'Tai ar gyfer Pobl Hy^n'<sup>14</sup>. Hefyd casglodd dystiolaeth ar ei adolygiad i Gamddefnyddio Sylweddau<sup>15</sup>, y gwnaeth aelodau'r Pwyllgor nifer o ymweliadau ar eu cyfer. Yr oeddent yn cynnwys ymweliadau â safleoedd cyfeirio yn Aberystwyth, Bangor, Pen-y-bont, Caerdydd, Caerfyrddin, Merthyr Tudful, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

Hefyd, mae aelodau'r Pwyllgor wedi gweithredu fel rapporteurs yn ymweld â gymarferwyr gwahanol a nodi eu canfyddiadau wrth y Pwyllgor. Yr oedd cam cyntaf yr adolygiad yn canolbwyntio ar driniaeth ac adsefydliad a disgwylir adroddiad interim yn gynnar yn hydref 2005. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i edrych ar rwystrau sy'n atal pobl rhag cyrraedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac ar gysylltiad Meddygon Teulu yn cyflwyno cynlluniau gofal rhanedig/triniaeth camddefnyddio sylweddau yng Ngham II yr adolygiad.

Yn ystod y flwyddyn fe ystyriodd y Pwyllgor weithdrefnau ac amserlenni ar gyfer trafod is-ddeddfwriaethau o dan y Ddeddf Tai, y Gorchmynion Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol a Throsglwyddiad Swyddogaethau (CAFCASS) yng Nghymru i'r Cynulliad.

Hefyd ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Elusennau drafft a throsglwyddodd ei sylwadau, trwy'r Gweinidog, i'r Swyddfa Gartref.

Yn Ionawr 2005, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal i gwestiynu'r Comisiynydd Plant am ei adroddiad blynyddol.

## Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cyfarfu'r Pwyllgor yn swyddogol bum gwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod i drafod cwyn yn erbyn un o Aelodau'r Cynulliad.

---

<sup>14</sup> Cylch gorchwyl:

*Y ddarpariaeth tai gyfredol i bobl hyn yng Nghymru; yng ngoleuni'r ffaith fod y stoc dai yn mynd yn hyn ac ystyriaethau eraill; beth sy'n angenrheidiol i alluogi pobl hyn presennol i aros yn eu cartrefi eu hunain a pha ddarpariaethau newydd sydd eu hangen i ateb anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy.*

<sup>15</sup> Cylch gorchwyl:

*I ystyried effeithiolrwydd polisiâu a threfniadau presennol ar gyfer atal a thrin camddefnyddio sylweddau gan roi sylw arbennig i atal a thrin grwpiau a effeithir gan gamddefnyddio sylweddau ac alcohol.*



Mae'r materion canlynol ymysg y prif rai y bu'r Pwyllgor yn ymdrin â hwy:

- Trefniadau a chanllawiau diwygiedig ar gyfer Cofrestru Buddiannau Aelodau;
- Gweithredu ystod eang o argymhellion sy'n deillio o adolygiad Woodhouse a oedd yn adolygu trefniadau Safon Ymddygiad y Cynulliad;
- Gweithredu'r weithdrefn newydd ar gyfer ystyried cwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad;
- Penodi Comisiynydd Safonau Ymddygiad y Cynulliad Cenedlaethol;
- Gofyniad y Cynulliad i Aelodau gofrestru i nodi a ydynt yn aelod o'r Seiri Rhyddion.

Hefyd, rhoddodd y Pwyllgor gyngor ar nifer o faterion ad hoc.

### **Pwyllgorau Rhanbarth**

#### **Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2004/05 mewn lleoliadau ym Mhont Senni, Llanerfyl, Aberteifi a Phenrhyndeudraeth.

Yn ystod y cyfarfodydd rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i: System gyllido a chynllunio genedlaethol ELWa ar gyfer addysg ar ôl 16 oed; adroddiad y Comisiwn Richard ar bwerau ychwanegol posibl i'r Cynulliad Cenedlaethol; ysmegu mewn mannau cyhoeddus; a thwristiaeth.

Cafodd y pwyllgor gyflwyniadau gan sefydliadau perthnasol o ranbarth canolbarth Cymru, gan gynnwys ELWa, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, cyrff twristiaeth lleol ac aelodau'r Comisiwn Richard.

Cymerodd aelodau'r cyhoedd eu cyfle i holi'r cyflwynwyr ac aelodau'r pwyllgor am y pynciau hyn, a hefyd i godi pynciau oedd yn creu pryder yn lleol. Ble bo'n briodol, cafodd y pryderon lleol hyn eu pasio i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad i weithredu.

Cafodd y safbwyntiau a fynegwyd ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus eu cyfleu wrth Gadeirydd y Pwyllgor a sefydlwyd i ymchwilio i'r mater hwn.

Daeth 35 o bobl i'r cyfarfodydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

#### **Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**

Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd bum gwaith yn ystod 2004-05 yng Nghei Conna, Bae Colwyn, Wrecsam, Bangor a'r Wyddgrug.

Yr oedd pwyslais y Pwyllgor ar annog y cyhoedd i gymryd rhan a chafwyd niferoedd da o'r cyhoedd yn yr holl gyfarfodydd. Ar ôl pob cyfarfod, aeth y Pwyllgor ati i baratoi adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a fynegwyd gan bobl Gogledd Cymru. Cyflwynwyd copïau i'r Aelod Cynulliad perthnasol er mwyn

iddo gael ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Trafododd y Pwyllgor y pynciau canlynol: datblygu economaidd; diogelwch yn y gymuned; adroddiad y Comisiwn Richard; twristiaeth a chynhyrchu nwyddau gan eu bod yn berthnasol i Ogledd Cymru.

Yn y cyfarfod ym mis Mai , bu'r Pwyllgor yn trafod datblygiad economaidd a thrafnidiaeth . Rhoddodd y cyfarfod gyfle i sefydliadau lleol ac aelodau'r cyhoedd i roi eu safbwyntiau i'r Pwyllgor.

Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor ddiogelwch yn y gymuned yng Ngogledd Cymru. Clywodd y Pwyllgor gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf a CAIS.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, edrychodd y Pwyllgor ar bwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymhlith y cyflwynwyr yn y cyfarfod hwnnw, yr oedd yr Arglwydd Richard. Clywodd y Pwyllgor ystod eang o farnau, a adroddwyd yn ôl wrth Brif Weinidog y Cynulliad ac arweinyddion y pleidiau gwleidyddol eraill i fwydo i ddadl y Cynulliad ar argymhellion Comisiwn Richard.

Trafododd y Pwyllgor dwristiaeth ym mis Chwefror. Clywodd y Pwyllgor farn grwpiau a sefydliadau twristiaeth lleol.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, edrychodd y Pwyllgor ar wneuthur nwyddau yng Ngogledd Cymru. Derbyniwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan y cyflwynwyr a'r cyhoedd, a chafodd y cyfan ohonynt eu hadrodd wrth y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

Daeth 83 o bobl i'r cyfarfodydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

### Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain

Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain chwe gwaith yn ystod 2004-05 mewn lleoliadau yng Nghaerffili, Caerdydd, y Bari, Mynwy, Porthcawl a Merthyr Tydfil.

Bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar un pwnc ymhob cyfarfod. Ymhlith y pynciau a ystyriwyd yr oedd: patrymau gofal wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty; adroddiad y Comisiwn Richard; cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau; addysg i rai rhwng 14-19; ysmegu mewn mannau cyhoeddus; ac adfywio o'r arfordir i'r cymoedd.

Gwahoddwyd y cyhoedd i gymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd a chafodd nifer o bwyntiau a godwyd eu hateb yn llawn ac yn uniongyrchol ym mhob cyfarfod. Paratôdd y Pwyllgor adroddiad o bob cyfarfod, a ddosbarthwyd i bawb a fynychodd ac a osodwyd ar y Rhyngwrdd. Cafodd y cofnodion a'r papurau perthnasol eu hanfon ymlaen i'r Gweinidog priodol ar gyfer gweithredu.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan gynrychiolwyr lechyd lleol, yr Arglwydd Richard a chynrychiolwyr o: y Gymdeithas Ddinesig; proffesiwn y cyfreithwyr;

academia; y sector wirfoddol; gwasanaethau cyhoeddus; ELWa a'r sector addysg; ASH; Forest; Tafarnwyr; a sefydliadau economaidd, trafndiaeth a sefydliadau menter.

Daeth 47 o bobl i'r cyfarfodydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

### Pwyllgor Rhanbarth y De Orllewin

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2004-05 mewn lleoliadau ym Mhenfro, Abertawe, Pontyberem, yn Nhalacharn a Llansawel.

Canolbwyntiodd y cyfarfodydd ar drafodaethau cyhoeddus polisiau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu adolygiadau sy'n cael eu gwneud gan bwyllgorau pwnc. Rhoddodd y cyfarfodydd gyfle i sefydliadau lleol ac aelodau'r cyhoedd i roi tystiolaeth o'u safbwynt hwy ac i roi eu safbwyntiau i'r Pwyllgor. Gallodd aelodau'r cyhoedd godi cwestiynau a mynegi eu barn ar y pynciau a drafodwyd. Mae cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd wedi'u hanfon ymlaen i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad neu Gadeirydd y Pwyllgor priodol.

Trafododd y Pwyllgor adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar gamddefnyddio sylweddau yn ei gyfarfod ym mis Mai.

Yn Gorffennaf edrychodd y Pwyllgor ar bwerau a'r trefniadau etholiadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymhlith y cyflwynwyr yn y cyfarfod hwnnw yr oedd dau aelod o Gomisiwn Richard.

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, trafododd y Pwyllgor adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar drafndiaeth ysgol. Clywodd y Pwyllgor gan ddarparwr trafndiaeth lleol, gan gynrychiolwyr undebau llafur ac awdurdodau lleol, ac yr oedd yn arbennig o falch o glywed oddi wrth ddisgyblion Ysgol Dyffryn Taf, a amlinellodd eu pryderon am ddiogelwch ar fysiau ysgol. Hefyd cafodd y Pwyllgor gyfle i weld 'bws melyn' ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod mis Tachwedd, bu'r Pwyllgor yn trafod gofal plant, gyda chyfeiriad penodol at Adroddiad Interim y Gweithgor Gofal Plant. Clywodd y Pwyllgor farn darparwyr gofal plant yn lleol a chynrychiolwyr o blith rhieni.

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, edrychodd y Pwyllgor ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus.

Daeth 38 o bobl i'r cyfarfodydd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

## Adnoddau

### Staff Cyflogedig (crynodeb)

Mae'r tabl isod yn dangos terfyn uchaf staff a nifer y staff parhaol a fu'n gweithio i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

Mis/Blwyddyn	Terfyn Uchaf Staff	Nifer y Staff Parhaol mewn Swyddi
1 Ebrill 2004	319	281
31 Mawrth 2005	336	285

### Dosbarthiad y staff cyflogedig ar 31 Mawrth 2005

Is-adran/Cangen	Nifer y staff mewn swydd
<b>Swyddfa Breifat y Llywydd</b>	5
<b>Swyddfeydd y Clerc a'r Dirprwy Glerc</b>	5
<b>Cyfreithiol</b>	6
<b>Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad</b>	
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	1
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	8
Gwybodaeth ac Addysg i'r Cyhoedd	38
Y Wasg a'r Cyfryngau	2
Cofnod y Trafodion	20
Y Gwasanaeth Cyfieithu	37
<b>Y Gwasanaethau Corfforaethol</b>	
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	2
Ffioedd a Chyllid	15
Adnoddau Dynol a TUS	15
Swyddfeydd a Chyfleusterau	64
<b>Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaeth y Pwyllgorau</b>	
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau	32
Gwasanaeth y Pwyllgorau	26
<b>Gwasanaethau'r Siambr</b>	
Ysgrifenyddiaeth y Siambr	5
Y Swyddfa Gyflwyno	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>285</b>

Yr oedd y nifer o staff mewn swyddi ar y graddfeydd canlynol:

TS	PS	EO	HEO	SEO	G7	G6	G5	G3	G2
95	3	61	74	27	16	4	3	1	1

### Crynodeb o'r sefyllfa Recriwtio

Trwy gydol y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2005, cynhaliodd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 29 o gynlluniau recriwtio allanol a phenodwyd 33 o ymgeiswyr.

## Y Gyllideb

Cyfanswm cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2004-05 oedd £26,626,000, fel a ganlyn:-

Cangen	Cyfanswm y Gwariant (£)	Dyraniad (£)
<b>Costau Rhedeg</b>		
<b>Uniongyrchol – Staff</b>		
Swyddfa Breifat	155,093	155,093
Y Clerc	341,299	365,000
Y Cynghorydd Cyfreithiol	165,161	195,000
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaeth y Pwyllgorau	1,992,376	2,080,000
Busnes y Cynulliad	252,073	275,000
Y Gwasanaethau Cyfathrebu	3,066,499	3,145,000
Y Gwasanaethau Corfforaethol	2,196,501	2,070,000
<b>CYFANSWM COSTAU STAFF</b>	<b>8,169,004</b>	<b>8,285,000</b>
<b>Gwariant Gweinyddol Cyffredinol</b>		
Y Swyddfa Breifat	8,994	6,500
Y Clerc	263	1,500
Y Cynghorydd Cyfreithiol	0	0
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaeth y Pwyllgorau	257,233	245,000
Busnes y Cynulliad	72,246	46,000
Y Gwasanaethau Cyfathrebu	1,117,202	1,296,900
Y Gwasanaethau Corfforaethol	5,298,951	6,014,000
Cronfa heb ei chlustnodi		397,100
<b>CYFANSWM GAE</b>	<b>6,754,889</b>	<b>8,007,000</b>
<b>Tâl a Lwfansau'r Aelodau</b>	<b>8,820,015</b>	<b>10,175,000</b>
<b>CYFANSWM CYFALAF</b>	<b>27,995</b>	<b>30,000</b>
<b>Cost Cyfalaf a Dibrisiant</b>	<b>129,000</b>	<b>129,000</b>
<b>CYFANSWM Y GWARIANT</b>	<b>23,900,903</b>	<b>26,626,000</b>

## **Ystad y Cynulliad**

Mae Ystad y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn cynnwys swyddfeydd y Cynulliad ac Adeilad Glanfa'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r swyddfeydd yn cynnig lleuety dros dro i Siambr ac Ystafelloedd Pwyllgora'r Cynulliad; yn gynnar yn 2006, bydd adeilad Siambr y Cynulliad a ddyluniwyd gan Richard Rogers ac sydd wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd, yn cymryd lle y rhain. Yn ystod 2004-05, mae Pwyllgor y Ty wedi bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y rhaglen adeiladu a rhagwelir y bydd Pwyllgor y Ty yn dod yn gyfrifol am yr adeilad newydd unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Mae gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad swyddfa a Chanolfan Ymwelwyr ym Mae Colwyn yng Ngogledd Cymru hefyd. Mae pedwar tîm rhanbarthol, wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Bae Colwyn, Caerfyrddin a Llandrindod.

Yn ystod 2004-05 cymeradwyodd y Pwyllgor Ty fân waith prosiect newydd i uwchraddio ac adnewyddu Adeilad y Lanfa. Yr oedd y gwaith yn cynnwys rhoi to newydd a gwneud gwaith trwsio ar ddeunydd allanol yr adeilad a diweddarau'r system wresogi a gosod system oeri'r awyr yn yr adeilad.

## Amcanion a Pherfformiad 2004-05

Roedd Cynllun Blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2004/05 yn cynnwys ei amcanion ar gyfer y flwyddyn, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl isod gydag enghreifftiau o'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.

AMCANION	ENGHREIFFTIAU O'R CAMAU A GYMERWYD
<p>Galluogi'r Aelodau i wella gweithdrefnau Pwyllgorau a phrosesau craffu yn y Cynulliad</p>	<p><b>Panel Cadeiryddion:</b> yn dilyn trafodaethau yn y Panel Cadeiryddion, mae nifer o gamau wedi'u cyflwyno i wella prosesau craffu e.e</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Treialu hyfforddiant craffu ar gyfer EPC ym mis Hydref a chytuno i'w ymestyn i bwyllgorau eraill</li> <li>• Hyfforddiant craffu ar gyllidebau ar gyfer pob pwyllgor</li> <li>• Sefydlu pwyllgor i graffu ar Brif Weinidog y Cynulliad</li> <li>• Tri chyfarfod craffu ar y cyd swyddogol gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig, dau ar ddeddfwriaethau a'r trydydd ar ddarlledu</li> <li>• Mwy o ddefnydd o adroddiadau cyflwyno gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau fel sylfaen i gwestiynu</li> <li>• Mae sylw gan y cyfryngau wedi gwella.</li> </ul> <p><b>Craffu Deddfwriaethol:</b> adolygiadau rheolaidd o restrau gwirio deddfwriaethol er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael o bwyllgorau i'r Pwyllgor Busnes a'r Cyfarfod Llawn. Mae'r Panel Cadeiryddion yn adolygu prosesau'n rheolaidd.</p> <p>Cynnydd ar Fesurau perthnasol Senedd Cymru yn y <b>Bwletin Gwybodaeth Wythnosol y Cynulliad</b> ar y rhyngwyd, gan gynnwys manylion am ystyriaeth Pwyllgor y Cynulliad o / ac adrodd ar Fesurau.</p> <p>Sefydlodd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad bresenoldeb ym <b>Mrwsel</b> gyda recriwtio Dadansoddwr Polisi'r Undeb Ewropeaidd y mae ei rôl yn golygu helpu pwyllgorau gyda chraffu ar faterion polisi Ewropeaidd.</p> <p><b>Cofnod Verbatim o Bwyllgorau:</b> mae'r gwasanaeth yn weithredol i ddarparu</p>

AMCANION	ENGHREIFFTIAU O'R CAMAU A GYMERWYD
	<p>cofnod verbatim o drafodion mewn pwyllgorau i aelodau, a gyflwynwyd ar amser ac o fewn y gyllideb.</p> <p>Mae mwy o <b>sylw gan y wasg a'r cyfryngau</b> i drafodion y Pwyllgorau wedi cynnwys cyfleoedd i Gadeiryddion Pwyllgorau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am waith Pwyllgorau.</p> <p>Cynhyrchwyd <b>cyhoeddiadau newydd</b> sy'n rhoi manylion aelodaeth a chyfrifoldeb pob Pwyllgor Pwnc. Mae'r cyhoeddiadau ar gael i aelodau'r Pwyllgorau sy'n agored i'r cyhoedd.</p>
<p>Archwilio ac ymateb yn effeithiol i argymhellion Comisiwn Richard a dderbyniwyd gan y cynulliad a'r rhai a gysylltir gydag arferion da, a chynllunio ar gyfer goblygiadau gan gynnwys unrhyw newidiadau i drefniadau sefydliadol am wasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a staff Llywodraeth Cynulliad Cymru.</p>	<p>Fe wnaeth <b>Adroddiadau i'r Pwyllgor Ty</b> dynnu sylw at y materion ac argymell y camau sydd i'w cymryd.</p> <p><b>Sefydlwyd prosiect</b> i ddelio gyda'r goblygiadau, a chychwynwyd ar raglenni gwaith a gytunwyd erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p><b>Mae'r gyllideb wedi'i sefydlu</b> ond gall gael ei newid i gymryd i ystyriaeth dros-lywyddiadau mewn cysylltiad â'r rhaniad yn y Gwasanaeth Cyfieithu, cyfreithwyr Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a chostau Merlin.</p>
<p>Defnyddio barn aelodau, eu staff a'n cwsmeriaid allanol fel sail i adeiladu fel y mynegwyd mewn adborth perthnasol, arolygon bodlonrwydd a dulliau perthnasol eraill i wella'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid, a ble bo'n bosibl, eu dirnadaeth o'n gwasanaethau.</p>	<p>Mewn ymateb i ofynion Aelodau, o fis Ebrill 2005 bydd <b>bydd copi verbatim o gyfarfodydd pwyllgor, a Chofnod o Drafodion dwyieithog ar gael 24 awr</b> ar ôl y cyfarfodydd llawn .</p> <p>Defnyddiwyd yr ymarfer <b>Cwsmeriaid Dirgel</b> er mwyn profi pa mor dda yw'r gofal o gwsmeriaid.</p> <p>Cynhyrchwyd <b>Taflen Groeso</b> sy'n rhoi gwybodaeth cymhennu pwysig i ymwelwyr sy'n mynychu cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor.</p>
<p>Gwneud cyfraniad priodol i gyflwyniad adeilad siambr newydd ardderchog, ar amser ac o fewn y gyllideb erbyn diwedd 2005 ac i fod yn barod i gymryd cyfrifoldebau Gwasanaeth Seneddol y</p>	<p>Mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad â chysylltiad agos â'r <b>prosiect adeiladu</b>, yn rhoi sylw i ofynion cwsmeriaid ac yn sicrhau fod anghenion Aelodau'n cael eu hateb cyn belled ag y bo modd.</p>



AMCANION	ENGHREIFFTIAU O'R CAMAU A GYMERWYD
<p>Cynulliad pan gwblheir yr adeilad.</p>	<p>Bydd <b>amcangyfrifon am adnoddau</b> yn parhau i gael eu datblygu fel y byddwn yn symud i mewn i'r adeilad. Bydd costau'n cael eu hamcangyfrif yn ystod y cyfnod gosod mewnol mewn cydweithrediad â chontractwyr cynnal, glanhau, arlwyo a gwasanaethau eraill a gontractiwyd. Hefyd bydd prisiad graddio yn cael ei ddatblygu pan fo'r adeilad yn cael ei gwblhau. Bydd costau cynnal gyda golwg ar ddefnyddio ynni (trydan, nwy ac ati) yn dibynnu ar y gwir ddefnydd yn ystod y flwyddyn gyntaf o ddefnyddio'r adeilad.</p> <p>Cyflwynwyd papur ar opsiynau ar gyfer <b>Adeilad Gweddill</b> i Bwyllgor y Ty ar 3 Chwefror. Cytunodd Pwyllgor y Ty i ohirio penderfyniadau ar ddefnydd o le dros ben nes y bydd yr adeilad newydd yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio a nes y bydd asesiad o'r cyfleusterau ychwanegol sy'n angenrheidiol.</p> <p>Mae Pwyllgor y Ty wedi addo cyfraniad sylweddol i osod offer yn yr adeilad, ac mae <b>cyllidebau</b> yn cael eu rheoli o fewn y lefelau a nodwyd gan Aelodau. Mae aelodau wedi cael cyfleoedd i weld a phenderfynu ar gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac ar ddodrefnu.</p> <p>Mae cynnydd wedi digwydd gyda golwg ar gyflwyno'r <b>prosiectau celf</b>. Cyfarfu'r Panel 5 gwaith yn ystod y flwyddyn i roi cyngor ac i adolygu datblygiad prosiectau; mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn ogystal â llenwi rôl drom cyd-drefnu a chyd-gysylltu ar y prosiect, wedi darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel.</p>
<p>Cadw enw da'r Cynulliad am ddefnydd arloesol o ICT trwy gydol y cyfnodau sylfaen a throsglwyddo ar gyfer partneriaeth Merlin ac i sicrhau fod gofynion holl Aelodau'r Cynulliad yn cael y flaenoriaeth briodol.</p>	<p>Mewn partneriaeth gyda Merlin, mae gwelliannau wedi'u gwneud i <b>gysylltiad band eang swyddfeydd yr etholaethau</b> a'r feddalwedd a ddarparwyd i Aelodau fel rhan o'r uwchraddiad technoleg. Addaswyd y feddalwedd mewn ymgynghoriad cyson gydag Aelodau.</p> <p><b>Strwythur bartneriaeth:</b> cytunwyd</p>

AMCANION	ENGHREIFFTIAU O'R CAMAU A GYMERWYD
	bellach, er mwyn parhau gyda'r gwahanu, y bydd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad ei strwythur rheoli a'i gyllideb ei hun ar gyfer contract Merlin. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hwn.
<p>Gweithredu a gwneud cynnydd ar y strategaethau corfforaethol canlynol:</p> <p>(a) Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad</p> <p>(b) Cyfraniad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad at Gynllun Datblygiad Cynaliadwy diwygiedig y Cynulliad;</p> <p>(c) Elfen Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad y Cynllun Cydraddoldeb Hil.</p> <p>(d) Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol 2003-2006.</p>	<p><b>Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog:</b> gwnaethpwyd adolygiadau a ddangosodd gydymffurfio da trwy Wasanaeth Seneddol y Cynulliad.</p> <p><b>Y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy:</b> mae rhywfaint o hyfforddiant mewn rhai meysydd allweddol i'w ddarparu, ac mae angen ffocws pellach ar y maes hwn y flwyddyn nesaf er mwyn adeiladu ar gynnydd a wnaethpwyd.</p> <p>Cytunwyd ar y <b>Cynllun Cydraddoldeb Hil</b> gan Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar 12 Ionawr 2005. Yr oedd y Cynllun Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2005-2008 i'w ystyried gan Bwyllgor y Ty ar 21 Ebrill 2005.</p> <p><b>Iechyd a Diogelwch:</b> Cafwyd y Wobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol ym mis Mawrth. Mae mentrau pellach i gefnogi iechyd da ar y gweill. Cymryd rhan yn barhaus mewn cynllunio iechyd a diogelwch trwy'r Cynulliad, a bydd y maes hwn angen sylw fel rhan o'r cynllunio gwahanu.</p>
<p>Gwella'r canran o ymatebion positif gan staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn yr Arolwg Agweddau Staff am 2004 ym maes rheoli perfformiad, cynnydd a datblygiad, gallu i herio'r modd y caiff pethau eu gwneud a bod yn destun ymddygiadau annerbyniol yn y gwaith.</p>	<p>Yr oedd cwestiynau yn Arolwg Staff 2004 yn cynrychioli'n well anghenion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, er fod addasiadau pellach yn cael eu hystyried ar gyfer 2005.</p> <p>Mae'r broses perfformiad yn dangos fod cynnydd ardderchog wedi digwydd rhwng arolygon 2003 a 2004, gyda thri phrif gwestiwn yn dangos gwelliant mewn perfformiad o dros 20 pwynt canran.</p> <p>Pryderon a safbwyntiau staff: Mae Arolwg 2004 yn dangos canlyniadau siomedig o ran dangosyddion allweddol, yn arbennig ym maes cyfathrebu gyda rheolwyr. Yr oedd ymrwymiad clir gan</p>

AMCANION	ENGHREIFFTIAU O'R CAMAU A GYMERWYD
	<p>uwch reolwyr i ymchwilio i, ac i roi sylw i faterion sy'n codi, ac i wella cyfathrebu o fewn y Gwasanaeth. Mae gwelliannau i systemau cyfathrebu wedi'u sefydlu, mewn ymgynghoriad gyda staff.</p>
